

Pecyn Gwybodaeth am Swydd

Rôl: Uwch Reolwr Ymgysylltu (Cymru) - Cymraeg Hanfodol

Ynghylch Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Ein gweledigaeth yw i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth ac i'w chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

Amdanom ni

Sefydlwyd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ym 1994 i roi grantiau i amrywiaeth eang o brosiectau sy'n ymwneud â threftadaeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol y Deyrnas Unedig. Rydym yn dosbarthu cyfran o'r arian a godir gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer Achosion Da.

Rydym yn dyrannu grantiau i brosiectau yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ac ers 1994, rydym wedi dyrannu £8.2 biliwn i fwy na 45,000 o brosiectau ar draws y DU.

Fe'n hadwaenir yn swyddogol fel 'corff cyhoeddus anadrannol'. Mae hyn yn golygu, er nad ydym yn adran o lywodraeth y DU, bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn rhoi cyfarwyddiadau ariannol i ni ac rydym yn adrodd i Senedd y DU drwy'r adran. Mae ein penderfyniadau ynghylch ceisiadau a pholisïau unigol yn gwbl annibynnol.

Gweinyddir y Gronfa gan Ymddiriedolwyr **Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol [CGDG]** sy'n dyrannu grantiau ar wahân i'n treftadaeth genedlaethol, gan weithredu fel cronfa 'cyfle olaf'. Hyd at fis Ionawr 2019 ein henw oedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL).

Beth ydyn ni'n gwneud?

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ariannwr blaenllaw treftadaeth amrywiol y DU a'r unig sefydliad treftadaeth sy'n gweithredu ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae'n ariannu'r holl amrywiaeth o dreftadaeth – gan gynnwys adeiladau, amgueddfeydd, treftadaeth naturiol a threftadaeth traddodiadau diwylliannol ac atgofion.

Ym mis Mawrth 2023 bu i ni lansio ein strategaeth newydd ac uchelgeisiol, Treftadaeth 2033, sy'n disgrifio ein cyfeiriad strategol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol treftadaeth y DU a'r hyn y bydd ein buddsoddiad yn ei gyflawni ac mae'n seiliedig ar ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd, y sector a'n staff, sef dros 4,000 o randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd yn ogystal ag ymchwil ehangach.

Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y byddwn ni'n:

- Anelu at fuddsoddi £3.6biliwn yn nhreftadaeth y DU dros y 10 mlynedd;
- Cyflwyno pedair egwyddor fuddsoddi newydd (achub treftadaeth, diogelu'r amgylchedd, cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad a chynnaladwyedd sefydliadol);
- Parhau â'n rhaglenni agored llwyddiannus gyda phroses gwneud penderfyniadau sydd wedi'i datganoli;
- Cyflwyno mentrau strategol ledled y DU gan ganolbwyntio ar ymagwedd seiliedig ar le ac ymateb i gyfleoedd ac anghenion ar draws y sector;

- Ategu ein strategaeth hirdymor gyda Chynlluniau Cyflwyno tair blynedd, y cyntaf i'w gyhoeddi yn haf 2023.

I gael mwy o wybodaeth ewch i'n gwefan: <https://www.heritagefund.org.uk/cy>

Ar y wefan gallwch chi weld manylion amdanom ni, ein strategaeth gorfforaethol, ein strwythur etc. yn ogystal â newyddion am y prosiectau trawsnewidiol rydyn ni'n eu hariannu hefyd.

Job Information Pack

Role: Senior Engagement Manager (Wales) - Welsh Essential

About The National Lottery Heritage Fund

Our vision is for heritage to be valued, cared for and sustained for everyone, now and in the future.

About us

The National Lottery Heritage Fund was set up in 1994 to give grants to a wide range of projects involving the local, regional and national heritage of the United Kingdom. We distribute a share of the money raised by the National Lottery for Good Causes.

We allocate grants to projects in England, Northern Ireland, Scotland and Wales and since 1994, we have awarded £8.2 billion to more than 45,000 projects across the UK.

We are officially known as a 'non-departmental public body'. This means that, although we are not a government department, the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport issues financial directions to us and we report to Parliament through the department. Our decisions about individual applications and policies are entirely independent.

The Heritage Fund is administered by the Trustees of the **National Heritage Memorial Fund [NHMF]** which separately allocates grants to our national heritage, acting as a fund of 'last resort'.

Up to January 2019, we were known as the Heritage Lottery Fund (HLF).

What do we do?

The National Lottery Heritage Fund is the UK's leading funder of our diverse heritage and the only heritage organisation that operates both across England, Northern Ireland, Scotland and Wales and funds the entire spread of heritage – including buildings, museums, natural heritage and the heritage of cultural traditions and memories.

In March 2023 we launched our new and ambitious strategy, Heritage 2033, which sets out our strategic direction for the next 10 years. The strategy presents our vision for the future of the UK's heritage and what our investment will achieve and is based on widespread public, sector and staff engagement from over 4,000 stakeholders and members of the public as well as wider research.

The strategy sets out how we:

- Aim to invest £3.6 billion in the UK's heritage across the ten years;
- Will introduce four new investment principles (saving heritage, protecting the environment, inclusion, access and participation and organisational sustainability);
- Continue our successful open programmes with devolved decision-making;
- Introduce strategic initiatives across the UK with a focus on a place-based approach and responding to opportunities and need across the sector;
- Will underpin our long term strategy with three-year Delivery Plans, with the first to be published in the summer of 2023.

For further information please visit our web site at www.heritagefund.org.uk

On the website you can see details about us, our corporate strategy, our structure etc. as well as news of the life changing projects that we fund too.

Disgrifiad swydd

Uwch Reolwr Ymgysylltu (Cymru) - Cymraeg Hanfodol

Contract:	Cyfnod Penodol (12 mis)
Oriau:	Amser llawn (35 awr yr wythnos)
Lleoliad:	Gartref yn Ngogledd Cymru
Yn adrodd i'r:	Pennaeth Ymgysylltu
Yn gyfrifol am:	Yn gyfrifol am reolaeth llinell y Rheolw(y)r Ymgysylltu (gan ddibynnu ar drefniadau o fewn y tîm)
Amrediad:	4
Cyflog:	£41,065 i £47,096
Sgiliau dwyieithrwydd:	Mae sgiliau cyfathrebu (llafar ac ysgrifenedig) ar lefel uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Fel ariannwyr mwyaf treftadaeth y DU, ein gweledigaeth yw i dreftadaeth gael ei gwerthfawrogi, gofalu amdani a'i chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol.

Cyflwyno Busnes

Cyflwyno ein cenhadaeth a'n huchelgais drwy bartneriaethau, ymgysylltu a buddsoddi strategol ar draws y DU ar lefel leol.

Tîm Ardal

Cyflwyno Strategaeth Gorfforaethol y Gronfa Treftadaeth a Threftadaeth 2033 yng Nghymru.

Ysbrydoli, arwain a darparu adnoddau i dreftadaeth yn yr Ardal, drwy bartneriaethau strategol, ymgysylltu a buddsoddi incwm y Loteri Genedlaethol, harneisio cyllid a chyfleoedd eraill er mwyn cefnogi'r dreftadaeth.

Diben y swydd

Gweithio fel rhan o'r Tîm Ymgysylltu i reoli a darparu gweithgarwch ymgysylltu a chynhwysiad ar draws Cymru gan gynnwys ysgogi a chefnogi llif o geisiadau o ansawdd da; gweithio mewn Treftadleoedd yn ôl yr angen; a chynllunio a gweithredu strategaethau allgymorth sydd wedi'u targedu at flaenoriaethau Treftadaeth 2033. Cyfrannu at waith ehangach tîm Cymru.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau allweddol

- Cyfrannu at a chyflwyno'r Strategaeth Ymgysylltu a Chynhwysiad i gefnogi'r Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Ymgysylltu, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw Feysydd Ffocws daearyddol a blaenoriaethau Treftadaeth 2033 er mwyn darparu portffolio cymhleth ac amrywiol yn erbyn cyllideb fuddsoddi'r tîm.
- Rheoli a chyflwyno hyrwyddo gwaith y Gronfa Treftadaeth yng Nghymru er mwyn ennyn diddordeb a cheisiadau sy'n adlewyrchu nodau a blaenoriaethau Treftadaeth 2033 gan gynnwys rheoli a darparu cyngor cyn-ymgeisio a gweithgareddau allgymorth; bod yn gwbl gyfarwydd â gweithdrefnau gweithredol y Gronfa Treftadaeth a gwaith y tîm ehangach.

- Goruchwylio datblygu gwybodaeth y Gronfa Treftadaeth am yr Treftadleoedd a grwpiau a chymunedau sy'n cynrychioli blaenoriaethau Treftadaeth 2033 eraill gan gynnwys cysylltu â phartneriaid a chydweithwyr perthnasol yng Nghymru ac mewn adrannau eraill o'r Gronfa.
- Ymdrin â phob agwedd ar reoli llinell y Rheolw(y)r Ymgysylltu gan gynnwys datblygiad proffesiynol a rheoli perfformiad.
- Cyfrannu at rôl eiriolaeth ac arweinyddiaeth ehangach y Gronfa Treftadaeth yn yr Ardal; rheoli, nodi, datblygu a chynnal perthnasoedd â rhanddeiliaid a phartneriaid allanol wrth gefnogi Cyfarwyddwr Cymru. Ymgymryd â digwyddiadau llefaru a chynrychioli'r Gronfa Treftadaeth yn allanol fel y bo angen.
- Rheoli a chyfrannu at y gwaith o ymchwilio a drafftio adroddiadau am agweddau allweddol ar weithgarwch ymgysylltu a chynhwysiad yng Nghymru fel y bo angen.
- Cyfrannu at ddatblygu a chynnal cronfa ddata cysylltiadau ar gyfer Cymru sy'n cydymffurfio â rheolau GDPR.
- Er mwyn cefnogi'r Pennaeth Ymgysylltu a'r Pennaeth Buddsoddi, ymgymryd â rôl adolygu a rhoi cyngor ar Fynegiadau o Ddiddordeb; darparu cymorth ac arweiniad i ddarpar ymgeiswyr y nodir eu bod yn flaenoriaethau drwy'r broses MoDd.
- Ochr yn ochr â thimau Cyflwyno Busnes a chydweithwyr Mewnwelediad ac Arloesi Busnes, cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno strategaeth gyfathrebu'r tîm gan gynnwys hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol a defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol.
- Cyfrannu at hyrwyddo ymgyrchoedd DU gyfan, rhaglenni ariannu nad yw'n dod o'r Loteri a rhaglenni ariannu arloesol eraill, gan gynnwys benthyciadau. Cyfrannu at greu a hyrwyddo ymgyrchoedd Cymru gyfan.
- Mae sicrhau cynhwysiad yn rhan annatod o bob agwedd ar waith ymgysylltu'r Gronfa yng Nghymru.
- Gyda'r Pennaeth Ymgysylltu ac Uwch Reolwyr Ymgysylltu eraill, rheoli gwaith cyn-ymgeisio i sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar roi'r cymorth mwyaf i flaenoriaethau a nodir yn Treftadaeth 2033.
- Gweithio gydag Uwch Reolwyr Buddsoddi, yr Uwch Reolwyr Ymgysylltu eraill ac aelodau eraill o'r tîm i wneud argymhellion i'r Pennaeth Buddsoddi ynghylch penderfyniadau dirprwyedig.
- Dyletswyddau rheoli llinell ac asesu ceisiadau £3,000 - £10,000 o bryd i'w gilydd lle bo hynny'n ddefnyddiol fel offeryn ymgysylltu.
- Cydgysylltu â'r Tîm Canolog Cyflwyno Busnes a thimau ymgysylltu Ardaloedd a Gwledydd eraill i sicrhau ymagwedd gyson ar draws y DU.
- Dirprwyo ar ran y Pennaeth Ymgysylltu a dyletswyddau eraill fel y bo angen.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau gorfodol:

Ar gyfer swyddi rheoli:

- Arweinyddiaeth: Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am osod safonau ymddygiad clir i'w dîm ac am rymuso a chymhell ei staff a'i gydweithwyr i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn unol â chyflawni nodau strategol y Gronfa.

- Rheoli: Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau gwasanaethau effeithiol ac effeithlon a gosod safonau perfformiad clir ar gyfer ei dîm - gan wobrwyo, cefnogi a herio staff i sicrhau y cyflawnir amcanion unigol, tîm a sefydliadol.
- Gweithio ar y cyd: Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau cydweithio effeithiol yn eu tîm, eu Hadran ac yn y Gronfa'n ehangach er mwyn sicrhau y cyflawnir nodau strategol y Gronfa.
- Gweithio digidol: Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau, y polisïau a'r prosesau a ddarperir gan eu tîm yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gweithio digidol ac yn cefnogi strategaeth ddigidol y Gronfa.
- Gwerthoedd: Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am hyrwyddo, eirioli a chyflwyno fframwaith Gwerthoedd y Gronfa.
- Amrywiaeth a Chynhwysiad: Mae deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau bod eu timau, prosesau a gwasanaethau yn cefnogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad yn rhagweithiol - yn fewnol yn eu timau eu hunain ac yn allanol mewn gwasanaethau a pherthnasoedd â chwsmeriaid a rhanddeiliaid.

Arall

- Bydd y rôl yn cynnwys teithio ar draws Cymru, gan gynnwys ymweliadau safle
- Bydd y rôl yn cynnwys cynrychioli'r Gronfa mewn digwyddiadau etc. y tu allan i oriau gwaith
- Mae'r Gronfa Treftadaeth yn sefydliad Deyrnas Unedig gyfan. Oni nodir yn wahanol, mae lleoliad pob swydd yn y Gronfa Treftadaeth yn hyblyg. Bydd angen teithio, ymweld â safleoedd ac aros dros nos o bryd i'w gilydd ym mhob rôl ond bydd hyn yn amrywio yn unol ag anghenion pob Adran.
- Mae'r Gronfa Treftadaeth yn hyrwyddo ac yn annog gweithio hyblyg lle mae hyn yn cefnogi anghenion y Gronfa Treftadaeth.
- Mae'r Gronfa Treftadaeth wedi mabwysiadu ymagwedd gweithio hybrid yn ffurfiol. Mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o weithwyr yn gweithio o swyddfa'r Gronfa Treftadaeth a nodir yn eu contract ddwywaith yr wythnos o leiaf. Mae'r amser a dreulir ar ymweliadau safle â phrosiectau neu gyfarfodydd eraill sydd wedi'u lleoli mewn un o swyddfeydd eraill y Gronfa Treftadaeth neu swyddfa allanol yn cael ei gyfrif fel rhan o'r ddau ddiwrnod hynny. Gall gweithwyr weithio o adref ar y diwrnodau eraill o'r wythnos.

Nodyn ar ddisgrifiadau swydd y Gronfa Treftadaeth: Canllaw yw'r rhain i gynnwys y swydd a'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Mae'n bosib y bydd cynnwys swyddi'n newid dros amser ac nid yw'n rhan o'r contract cyflogaeth.

Manyleb Person

Uwch Reolwr Ymgysylltu

Gwybodaeth am Dreftadaeth

- Profiad yn y maes treftadaeth (neu agwedd benodol ar y dreftadaeth) neu faes pwnc cysylltiedig, neu wybodaeth a gwerthfawrogiad datblygedig ohonynt.
- Gwybodaeth am yr heriau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol yn yr Ardal gan gynnwys hinsawdd ariannu'r Ardal honno.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o Ardaloedd Ffocws daearyddol, a rhanddeiliaid yn yr ardaloedd hynny.
- Profiad o waith awdurdodau lleol, cymunedol ac eiriolaeth.
- Gwybodaeth am arfer gorau mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad.

Gwybodaeth Dechnegol a Dadansoddol

- Sgiliau TG cymwys gan gynnwys gwybodaeth ymarferol dda am Microsoft Office, Excel/Taenlenni a defnyddio cronfeydd data.
- Y gallu i ddadansoddi a dehongli gwybodaeth gymhleth gan gynnwys cynlluniau busnes a gwybodaeth ariannol.
- Profiad o ddrafftio a choladu/crynhai gwybodaeth ac ystadegau ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys y cyfryngau lleol.

Gwaith Rheoli a Thîm

- Profiad o reoli a datblygu staff i'w helpu i wireddu eu potensial.
- Gweithio'n gryf fel tîm: cyfraniad gweithredol ac adeiladol at y tîm, yn barod i arwain fel y bo angen er mwyn sicrhau bod amcanion y tîm yn cael eu cyflawni a hyrwyddo diwylliant tîm cadarnhaol ar draws trefniant gwasgaredig.
- Profiad o weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allanol gan gynnwys sgiliau cyd-drafod da a'r gallu i ddelio â chysylltiadau ar lefel uwch.

Sgiliau Rheoli Prosiect

- Dealltwriaeth ragorol o roi grantiau ac egwyddorion rheoli prosiectau.
- Profiad rhagorol o reoli adnoddau.
- Profiad o reoli cyllidebau ac adnoddau.

Cyfathrebu

- Ymwybyddiaeth o anghenion cwsmeriaid mewnol ac allanol a'r gallu i ddelio â nhw gyda diplomyddiaeth, hyblygrwydd a chan ddefnyddio menter.
- Y gallu i roi cyngor ac arweiniad clir i gynulleidfa eang ac amrywiol.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol (yn ysgrifenedig ac ar lafar yn Gymraeg a Saesneg) gan gynnwys y gallu i gyflwyno i ystod o gynulleidfaoedd ac addasu arddull yn briodol.
- Y gallu i ymdrin ag amrywiaeth eang o bobl mewn ffordd gymwynasgar a phroffesiynol.

NODYN AR DDETHOL

Bydd yr ymgeiswyr hynny sydd i'w gweld o'r wybodaeth a ddarperir i fod yn fwyaf addas ar gyfer y swydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Mae'n bwysig, felly, bod eich cais yn rhoi disgrifiad llawn, ond cryno, o natur, graddau a lefel y cyfrifoldebau rydych wedi'u dal.

Gweinyddir y Gronfa gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol [CGDG] ac mae'r holl weithwyr yn cael eu contractio trwy CGDG.

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i ddarparu mynediad a chyfle cyfartal, a hynny drwy'r arian loteri rydym yn eu dosbarthu ac fel cyflogwr. Croesewir ceisiadau'n arbennig gan bobl o gymunedau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi'u tangynrychioli yn ein tîm ar hyn o bryd. Rydym yn penodi ar sail gallu yn unig. Rydym yn gwarantu cyfweld â phob ymgeisydd ag anabledd sydd i'w gweld yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y penodiadau hyn.



Fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd rydym wedi ymrwymo i gyfweld â phob ymgeisydd ag anabledd sy'n bodloni ein hisafswm gofynion

Gall y rôl hon gael ei chyflawni fel cyfle secondiad, yn amodol ar ein cytundeb gyda'ch cyflogwr presennol. Yn ystod y cyfnod secondiad, byddwch yn parhau i fod yn weithiwr i'ch cyflogwr presennol, a fydd yn cyflawni costau llawn y rôl gyda'r Gronfa Treftadaeth (yn cynnwys cyfraniadau pensiwn, cyfraniadau Yswiriant Gwladol a chostau TAW).

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, yn uniongyrchol neu ar sail secondiad, cyflwynwch gais trwy ein gwefan os gwelwch yn dda. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi dilyn polisïau eich cyflogwr presennol ar secondiadau, os yw'n berthnasol.

Job Description

Senior Engagement Manager (Wales) - Welsh Essential

Contract:	Fixed Term (12 months)
Hours:	Full time (35 hours per week)
Location:	Homebased (North Wales)
Reporting to:	Head of Engagement
Responsible for:	Responsible for line management of Engagement Manager(s) (depending on arrangements within team)
Range:	4
Salary:	£41,065 to £47,096
Bilingual skills:	Communication skills (spoken and written) at a high level in Welsh and English is essential for this role.

The National Lottery Heritage Fund – Our vision is for heritage to be valued, cared for and sustained for everyone, now and in the future.

Business Delivery

Delivering our mission and ambition via strategic partnerships, engagement and investment across the UK at local level.

Area Team

Delivering the Heritage Fund's Corporate Strategy and Heritage 2033 in Wales. Inspiring, leading and resourcing the heritage in the Area, via strategic partnerships, engagement and investment of National Lottery income, harnessing other funding and opportunities in support of the heritage.

Job purpose

To work as part of the Engagement Team to manage and deliver engagement and inclusion activity across Wales including stimulating and supporting the flow of good quality applications; working in Areas of Focus / Heritage Places as required; and planning and implementing outreach strategies targeted at Heritage 2033 priorities. Contributing to the wider work of the Wales team.

Key duties and responsibilities

- Contributing to and delivering the Engagement and Inclusion Strategy in support of the Director and Head of Engagement, with particular reference to any geographical Heritage Places and Heritage 2033 priorities in order to deliver a complex and varied portfolio against the team's investment budget.
- Managing and delivering the promotion of the Heritage Fund's work within Wales to generate interest and applications which reflect Heritage 2033 aims and priorities including managing and delivering pre-application advice and outreach activities; to be fully conversant with the Heritage Fund's operational procedures and the work of the wider team.

- Overseeing the development of the Heritage Fund's knowledge of Heritage Places and groups and communities representing other Heritage 2033 priorities including liaising with relevant Wales based partners and colleagues in other departments in the Fund.
- Handling all aspects of line management of Engagement Manager(s) including professional development and performance management.
- Contributing to the Heritage Fund's wider advocacy and leadership role in Wales; managing, identifying, developing and maintaining relationships with external stakeholders and partners in support of the Wales Director. Undertake speaking engagements and representing the Heritage Fund externally as required.
- Managing and contributing to the researching and drafting of reports about key aspects of engagement and inclusion activity in Wales as required.
- Overseeing the development and maintenance of a database of contacts for Wales which is compliant with GDPR rules.
- In support of Head of Engagement and Head of Investment, take a role in reviewing and advising on Expressions of Interest; provide support and guidance to potential applicants identified as priorities through the EOI process.
- Alongside Business Delivery teams and Business Insight & Innovation colleagues, contribute to the development and delivery of the team's communications strategy including promotion of the National Lottery and effective use of social media.
- Contribution to the promotion of UK-wide campaigns, non-Lottery funding and other innovative funding programmes, including loans. Contribution to the creation and promotion of Wales- wide campaigns.
- Ensuring inclusion is embedded in all aspects of the Fund's engagement work in Wales.
- With Head of Engagement and other Senior Engagement Managers, managing pre-application work to ensure that resources are focussed on giving most support to priorities identified in Heritage 2033.
- Working with Senior Investment Managers, fellow Senior Engagement Managers and other members of the team to make recommendations to Head of Investment about delegated decisions.
- Occasional line management and assessment of £3,000 - £10,000 applications where useful as an engagement tool.
- Liaison with Business Delivery Central Team and other Area and Country engagement teams to ensure consistency of approach across the UK.
- Deputising for Head of Engagement and other duties as required.

Mandatory duties and responsibilities:

For managerial roles:

- **Leadership:** The postholder is responsible for setting clear behavioural standards for their team and empowers and motivates their staff and colleagues to deliver high quality services in pursuit of the Fund's strategic goals.
- **Management:** The postholder is responsible for ensuring effective and efficient services and setting clear performance standards for their team - rewarding, supporting and challenging staff to ensure individual, team and organisational objectives are delivered.

- Collaborative working: The postholder is responsible for ensuring effective collaborative working within their team, Department and wider Fund to ensure the strategic goals of the Fund are met.
- Digital working: The postholder is responsible for ensuring that the services, policies and processes delivered by their team maximise opportunities for digital working and support the Fund's digital strategy.
- Values: The postholder is responsible for promoting, championing and delivering the Fund's Values framework.
- Diversity and Inclusion: The postholder is responsible for ensuring their teams, processes and services proactively support and champion diversity and inclusion - both internally within their own teams and externally in services and relationships with customers and stakeholders.

Other

- The role will involve travel across Wales, including site visits
- The role will involve representing the Fund at events etc. out of hours
- The Heritage Fund is a UK wide organisation. Unless otherwise stated, the location of all posts in the Heritage Fund is flexible. Occasional travel, site visits and overnight stays will be necessary for all roles but will vary according to the needs of each Department.
- The Heritage Fund champions and encourages flexible working where this supports the needs of the Heritage Fund.
- The Heritage Fund has formally adopted a hybrid working approach. This means that most employees will work from their contracted Heritage Fund office twice a week at minimum. Time spent on site visits to projects or other meetings based at another Heritage Fund or external office are counted as part of those two days. The other days in the week employees may work from home.

Note on the Heritage Fund job descriptions: These are a guide to the contents of the job and the skills and experience required. Job content may change over time and are not part of the contract of employment.

Person Specification

Senior Engagement Manager

Heritage Knowledge

- Experience within or developed knowledge and appreciation of the heritage (or a particular aspect of the heritage) or related subject area.
- Knowledge of the key challenges, risk and opportunities in the Area including the funding environment of that Area.
- Knowledge and understanding of geographical Areas of Focus, and stakeholders in those areas.
- Experience of local authority, community work and advocacy.
- Knowledge of best practice in relation to equality, diversity and inclusion.

Technical and Analytical Knowledge

- Competent IT skills including good working knowledge of Microsoft Office, Excel/spreadsheets and the use of databases.
- Ability to analyse and interpret complex information including business plans and financial information.
- Experience of drafting and collating/summarising information and statistics for a variety of audiences, including local media.

Managerial and Teamwork

- Experience of managing and developing staff to help them realise their potential.
- Strong team working: active and constructive contribution to the team, willing to take the lead as necessary to ensure delivery of team objectives and promote a positive team culture across a dispersed arrangement.
- Experience of working with stakeholders and external partners including good negotiating skills and the ability to deal with contacts at a senior level.

Project Management Skills

- Excellent understanding of grant giving and the principles of project management.
- Excellent experience of resource management.
- Experience of budget and resource management.

Communication

- Awareness of the needs of both internal and external customers and ability to deal with them with diplomacy, flexibility and using initiative.
- Ability to provide clear advice and guidance to a wide and diverse audience.
- Excellent communication skills (both written and oral) including the ability to present to a range of audiences and adapt style appropriately.
- Ability to deal in a helpful and professional way with a wide range of people.

SELECTION NOTE

The candidates who appear from the information available to be best suited for the post will be invited to interview. It is important, therefore, that your application gives a full, but concise, description of the nature, extent and level of the responsibilities you have held.

The Heritage Fund is administered by the Trustees of the National Heritage Memorial Fund [NHMF] and all employees are contracted via NHMF.

We are fully committed to the provision of equal access and opportunity, both through the lottery funds we distribute and as an employer. We appoint solely on the basis of ability. Applications are particularly welcome from people from Black, Asian and minority ethnic communities who are currently under-represented in our team. We guarantee to interview all applicants with a disability who meet the minimum criteria for the post.



As a Disability Confident Employer we are committed to interviewing all applicants with a disability that meet our minimum requirements

This role can be undertaken as a secondment opportunity, subject to our agreement with your current employer. During secondment, you will remain an employee of your current employer, who would meet the full costs of the role with the Heritage Fund (inclusive of pension contributions, National Insurance contributions and VAT costs).

If you are interested in this vacancy, directly or on a secondment basis, please apply via our website. Please ensure you have followed your current employer's policy on external secondments, if applicable.

BUDDION I WEITHWYR

PENSIWN

Bydd gan weithwyr cymwys hawl i Bensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/>

GWYLIAU BLYNYDDOL

Mae'r gwyliau blynyddol ar gyfer swydd amser llawn yn 26 diwrnod y flwyddyn yn y flwyddyn lawn gyntaf ac fe'i cyfrifir a'i roi mewn oriau. Mae hyn yn codi un diwrnod ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth sydd wedi'i gwblhau, ar ben-blwydd eich dyddiad dechrau, hyd at uchafswm o 31 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth cyfrifadwy. Mae hyn yn ychwanegol at y gwyliau statudol a 1.5 o 'ddiwrnodau braint' a ddyrannir bob blwyddyn ar adeg a bennir gan fwrdd rheoli'r Gronfa.

Bydd oriau ar gyfer swyddi rhan-amser yn pro-rata ar sail wythnos waith o 35 awr. Mae gwyliau blynyddol a'r hawl i Wyliau Banc hefyd yn cael eu cyfrifo ar sail pro-rata.

ABSENOLDEB ARBENNIG

Mae CGDG yn caniatáu absenoldeb arbennig â thâl a di-dâl mewn amgylchiadau penodol yn unol â'r manylion yn ein llawlyfr i staff.

CYFLOG YMMLAEN LLAW

Cynigir swm o gyflog ymlaen llaw di-log i bob aelod o staff sydd wedi cwblhau eu cyfnod prawf i dalu am gost prynu tocyn tymor blynyddol neu i brynu beic. Mae yna hefyd yr opsiwn o swm ymlaen llaw i dalu am flaendal a rhent y mis cyntaf ar fflat/tŷ. Bydd y swm ymlaen llaw yn cael ei ad-dalu drwy ddiwyriad rheolaidd o'r cyflog.

CYNLLUN BEICIO I'R GWAITH

Fel rhan o 'Warant beicio i'r gwaith' y llywodraeth, gall CGDG logi beiciau ac offer diogelwch beicwyr i weithwyr fel budd di-dreth. Mae gweithwyr yn dewis yr ategolion beic a diogelwch sydd eu hangen arnynt a bydd CGDG yn llogi'r offer i'r gweithiwr drwy ostyngiadau aberthu cyflog am isafswm cyfnod o 12 mis. Gall hyn arbed hyd at 40% i weithwyr oddi ar y pris manwerthu.

DYSGU A DATBLYGU

Mae CGDG yn gwbl ymrwymedig i weithgareddau Dysgu a Datblygu ac yn Fuddsoddwr mewn Pobl achrededig. Rydym yn rhoi pwyslais arbennig ar weithgareddau cyflwyno ac ymgyswrtio ar gyfer staff newydd. Mae gan yr holl weithwyr fynediad i amrywiaeth eang o gyfleoedd Dysgu a Datblygu. Ar ôl cyfnod cymhwyso, mae'n bosib y bydd cymorth ariannol hefyd ar gael ar gyfer cymwysterau proffesiynol sy'n berthnasol i waith CGDG.

AELODAETH GAMPFA A SGRINIO IECHYD

